

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2020
yn Ystafell y Bwrdd, Preswylfa, Yr Wyddgrug

Yn bresennol:	Yn cynrychioli:
Mr Ffrancon Williams	Cymdeithasau Tai (Cadeirydd)
Mr Gwilym Ellis Evans	Mantell Gwynedd (Is-gadeirydd)
Mr Mark Wilkinson	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, BIPBC - Gweithredwr Arweiniol
Y Cyng. Joan Lowe	Cyngor Sir Wrecsam
Mr Garth Higginbotham	NWCHC
Y Cyng. Mike Parry	Un Llais Cymru
Y Cyng. Christine Marston	Cyngor Sir Ddinbych
Mr Trystan Pritchard	Hosbisau Gogledd Cymru
Mrs Fiona Evans	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Mrs Debbie Thompson	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Mrs Ann Woods	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint
Mrs Mary Wimbury	Fforwm Gofal Cymru
Yn bresennol:	
Ms Angie Nisbet	Rheolwr Rhaglen
Mrs Kamala Williams	Pennaeth Strategaeth
Mr Kyri Alexandrou	Arweinydd Clinigol BIPBC ar gyfer Wroleg
Suzanne Didcote	Cefnogaeth Ysgrifenyddol

Eitem Agenda		Camau Gweithredu
S20/1	Croeso ac Ymddiheuriadau	
S20/1.1	Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.	
S20/1.2	<u>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau canlynol:</u> Y Cyng. Dafydd Meurig, Cyngor Gwynedd Mrs Jackie Allen, Trydydd Sector Wrecsam Mrs Katie Sargent, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfathrebu, BIPBC Y Cyng. Llinos Medi Huws, Cyngor Sir Ynys Môn Y Cyng. Gladys Healey, Cyngor Sir y Fflint Y Cyng. Louise Emery, Cyngor Sir Conwy Yr Athro Robert Moore, NWREN Sian Purcell, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Medrwn Môn	
S20/1.3	Bydd y broses ar gyfer llenwi swyddi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn dechrau'n fuan. Byddwn yn ysgrifennu at aelodau'r GCRh ac yn gofyn iddynt ddatgan diddordeb yn y rolau hyn. Yn dilyn hyn byddwn yn cylchredeg enwebiadau i'r Grŵp er mwyn iddynt allu pleidleisio. Yna byddwn yn cadarnhau swyddi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd newydd ym Mwrdd Iechyd PBC a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ymgymryd â'u rolau o'r cyfarfod ym mis Mehefin ymlaen.	SD

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)

S20/2	Datganiadau o Ddiddordeb	
S20/2.1	Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.	
S20/3	Y Diweddaraŵ o ran Cynllunio	
S20/3.1	Rhoddodd Mark Wilkinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad ddiweddariad ar y broses cynllunio a'r paratodau ar gyfer y dyfodol. Nodwyd y newid sydd wedi bod o ran y Prif Weithredwr gyda Simon Dean o Lywodraeth Cymru yn cyflenwi ar gyfer y rôl dros dro. Nid yw'r Bwrdd wedi gallu creu cynllun 3 blynedd cymeradwy, am sawl rheswm, yn cynnwys diffyg cydbwysedd ariannol yn erbyn yr adnoddau a ddyrennir. Mae pwyslais ar greu Cynllun ar gyfer 20/21 sy'n dangos tystiolaeth o ddarpariaeth well mewn Gofal wedi'i Drefnu, Gofal heb ei Drefnu a Chyllid. Yn 2019/20 roedd y Bwrdd yn gweithio at ddiffyg ariannol o £35m, roedd Llywodraeth Cymru eisiau iddo fod yn £25m, ond mae o gwmpas £41m ar hyn o bryd. Dywedodd Garth Higginbotham bod y rhain yn rhifau mawr a gofynnodd beth oeddent yn nhermau canran cyllideb gyffredinol y Bwrdd Iechyd. Cadarnhaodd Mark Wilkinson bod hyn o gwmpas 2.7% - 3%.	
S20/3.2	Mae'r Bwrdd yn rhoi pecyn aml-flwyddyn at ei gilydd. Bydd hyn yn rhoi cynllun a ariennir 3 - 4 blynedd tymor hirach. Bydd gwaith yn parhau gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â blaenoriaethau. Mae angen miniogi'r broses atebolrwydd ar gyfer perfformiad o fewn y Bwrdd Iechyd hefyd.	
S20/3.3	Gofynnodd y Cyng. Mike Parry pam mai nawr, ar ôl i'r Bwrdd Iechyd fod mewn Mesurau Arbennig am 5 mlynedd, yr oedd yn sylwi ar y problemau hyn. Eglurodd Mark Wilkinson bod cynnydd wedi bod bob blwyddyn. Mae mwy o bobl yn dod i'n Hadrannau Achosion Brys, mae pobl yn byw yn hirach, mae mwy o ofal yn cael ei ddarparu, mae mwy yn cael ei wneud dan bwysau. Bydd rhan o'r datrysiad yn cynnwys cyllid ychwanegol ond mewn ffordd wedi'i dargedu. Eglurodd Mark fod cynnydd sylweddol wedi bod mewn Gofal Cychwynnol, Mamolaeth ac Iechyd Meddwl. Cododd Ffrancon Williams y broblem gyda chyllid Llywodraeth Cymru eto, gan ddefnyddio cyllid RTT fel enghraifft, lle derbynnir arian yn hwyr yn y flwyddyn a'i dynnu i ffwrdd os na fodlonir y targedau. Weithiau gall hyn fod yn aneffeithiol.	
S20/3.4	Dywedodd Mary Wimbury ei bod yn teimlo bod y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar gostau sylfaenol weithiau, yn hytrach na gwerth am arian, a all gael effaith negyddol. Nid yw'r pris isaf bob amser yn rhoi'r eitem neu'r gwasanaeth o'r gwerth uchaf, yn enwedig yn y sector Gofal. Nid yw bob amser yn glir lle mae rheoli ac atebolrwydd yn eistedd yn y Bwrdd Iechyd. Nododd Mark Wilkinson hyn.	
S20/3.5	Gofynnodd Mary Wimbury sut mae'r achosion o Goronafirws yn effeithio ar y cynlluniau hyn. Eglurodd Mark Wilkinson ein bod yn	

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)

<p>S20/3.6</p> <p>S20/3.7</p>	<p>y camau lliniarol dros yr wythnosau nesaf. Mae'r ymdrechion yn canolbwyntio ar gyfyngiant ac olrhain, ac mae profion ar waith. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dilyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd canolfan gorchymyn a rheoli yn cael ei sefydlu. Mae'r Fforwm Gwydnwch Lleol (LRF), sy'n aml-asiantaeth yn sefydlu grŵp tactegol. Gofynnodd y Cyng Joan Lowe os oedd cynllunio lleol ar waith. Eglurodd Mark fod y LRF yn fforwm Gogledd Cymru eang.</p> <p>Dywedodd y Cyng Joan Lowe bod yr Awdurdodau Lleol yn yr un sefyllfa o ran cyllid ac weithiau mae'n teimlo fel petai rhaniad rhwng y Gogledd a'r De. Teimlodd bod yna gyfleoedd i gydweithio. Mae'r cyfleoedd hyn yn bod gyda'r fforymau amrywiol sydd yn eu lle, yn cynnwys Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru lle mae ein Prif Weithredwr a'n Cadeirydd yn eistedd arno.</p> <p>Bu i'r Cadeirydd grynhoi bod yr heriau gyda mecanweithiau cyllid yn cael eu nodi. Mae'r cynlluniau posibl ar gyfer pecynnau cefnogi ariannol yn cael ei groesawu ac mae'r grŵp yn cefnogi hynny. O ran mynd i'r afael â materion ariannol, mae gwerth am arian yn hanfodol. Mae'r pwyslais ar roi min ar atebolrwydd hefyd yn cael ei groesawu.</p>	
<p>S20/4</p> <p>S20/4.1</p> <p>S20/4.2</p> <p>S20/4.3</p>	<p>Achos Busnes Offthalmoleg</p> <p>Croesawyd Angie Nisbet, Rheolwr Rhaglen i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar ddatblygu achos busnes ar gyfer Offthalmoleg. Mae iechyd llygaid gwael yn gyffredin ac mae'n fater mwyfwy cyffredin. Mae angen mynd i'r afael â thargedau cenedlaethol a monitro'r ôl-groniad o gleifion. Mae ail-ddylunio llwybr yn bwysig. Mae costau cyffuriau yn aml yn uchel. Mae tri llwybr craidd yr ydym yn mynd i'r afael â nhw, Glawcoma; AMD Gwlyb a Cataract. Mae'r prif egwyddorion cynllunio ar gyfer Cataracts yn cynnwys lleihau'r llwybr fel bod cleifion yn cael eu gweld yn fwy prydlon, lleihau'r camau apwyntiad i gleifion allanol a chreu mwy o le i'r cleifion hynny sydd â risg uwch sydd angen cael eu gweld. Ar gyfer Glawcoma mae'r rhain yn cynnwys sefydlu 6 Canolfan Trin a Diagnosteg Offthalmig Optometrig. Ar gyfer AMD Gwlyb, mae arian ar gyfer Ysbyty Abergele wedi darparu swît arbenigol ac uned hyfforddiant.</p> <p>Gofynnodd Trystan Pritchard sut oeddent yn dewis y lleoliadau ar gyfer yr ODTG Glawcoma. Eglurodd Angie eu bod wedi edrych ar y capasiti. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) hefyd yn edrych ar beth ellir datblygu Optometryddion ynddo.</p> <p>Gofynnodd y Cyng Cllr Christine Marston beth oedd y goblygiadau cost. Eglurodd Angie bod 3 lefel bandio gwahanol a'i fod yn draean o'r gost i'w cynnal mewn canolfannau optometrig. Nid oes yn rhaid i gleifion fyd at Feddyg Teulu am gyfeiriad, caiff llawer o hyn ei ganfod drwy'r profion llygaid a wneir. Gofynnodd y Cyng Marston pam oedd amseroedd apwyntiad yn cynyddu, a yw hyn</p>	

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)

<p>S20/4.4</p> <p>S20/4.5</p>	<p>oherwydd cost y cyffuriau ynteu'r capasiti? Eglurodd Angie bod rhai rhesymau'n cynnwys lle a hyfforddiant neu gapasiti staff.</p> <p>Gofynnodd y Cyng Mike Parry pam fod cynnydd yn nifer yr achosion o AMD Gwlyb. Eglurodd Angie ei fod oherwydd bod dirywiad yn iechyd y llygaid.</p> <p>Bu i'r Cadeirydd grynhoi bod y Grŵp wedi derbyn y gwaith sy'n cael ei wneud yn nhermau profiad cleifion yn bositif. Dywedodd eto bod angen monitro canlyniadau i sicrhau bod y manteision yn cael eu darparu a'n bod yn mynd i'r afael ar y pwysau o ran costau. Nodwyd bod hyn hefyd yn ffitio gyda gwaith Gofal yn Agosach at y Cartref y Bwrdd Iechyd.</p>	
<p>S20/5</p> <p>S20/5.1</p> <p>S20/5.2</p> <p>S20/5.3</p>	<p>Cyflwyniad Wroleg</p> <p>Croesawyd Kamala Williams, Pennaeth Strategaeth a Mr Kyri Alexandrou, Arweinydd Clinigol BIPBC ar gyfer Wroleg i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar ddatblygiad yr achos busnes ar gyfer Gwasanaethau Wroleg. Mae sawl cyd-ddibyniaeth gyda gwasanaethau eraill. Mae nifer o heriau gyda recriwtio sydd wedi arwain at wasanaethau yn cael eu darparu'r tu allan i'r ardal, pobl yn gorfod aros am hir, a ddim yn gwneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau sydd ar gael. Dechreuwyd adolygiad yn 2017 i gynyddu gwasanaethau, targedau a phrofiad cleifion. Ymgwymerwyd ag ymgynghoriad ar wneud gwaith canserau mawr yn Ysbyty Gwynedd a gwaith cerrig cymhleth yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Byddai bron bob gwasanaeth rheolaidd yn dal yn aros yn y tri safle ysbyty. O bosibl ni fydd cyfleuster cleifion mewnol yn Ysbyty Glan Clwyd, ond byddai gwasanaethau brys yn dal yn cael eu hasesu a'u trosglwyddo i'r Dwyrain neu'r Gorllewin fel bod angen. Gall y manteision gynnwys cynnal gwasanaethau, datblygu canolfannau rhagoriaeth a chefnogi datblygu llawfeddygaeth drwy gymorth robot. Bydd y camau nesaf yn dod â'r model gwasanaeth i ben ac yn datblygu'r achos busnes. Bydd ymgysylltiad yn parhau. Bydd yr Achos Busnes yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth, neu'n gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer gwaith i ddechrau o fis Awst ymlaen.</p> <p>Gofynnodd Ann Woods sut mae hyn yn mynd i'r afael â'r gwaith Gofal yn Agosach at y Cartref. Eglurodd Kamala y dechreuodd yr adolygiad oherwydd cynaliadwyedd gwasanaethau Wroleg. Mae gwaith a llwybrau eraill yn cael eu hastudio i fynd i'r afael â hyn, yn cynnwys apiau ar gyfer monitro gartref ac ati. Dywedodd Kyri Alexandrou unwaith eto nad yw gwasanaethau yn cael eu tynnu oddi arnynt, bydd gan gleifion fynediad at y rhain o hyd, yr achosion cymhleth a fydd yn mynd i rywle arall. Ychwanegodd y bydd Llawfeddygaeth Drwy Gymorth Robot (RAS) yn helpu arbenigeddau eraill hefyd.</p> <p>Gofynnodd Debbie Thompson beth fydd y goblygiadau i'r boblogaeth wryw sy'n aml yn ofn cael mynediad at y system. Dywedodd Kyri Alexandrou bod nifer y cyfeiriadau wedi cynyddu'n</p>	

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)

S20/5.4	<p>fawr ymysg dynion a bod hyn yn dangos bod dynion yn fwy ymwybodol. Mae cynnydd wedi bod yn nifer y bobl hŷn a welir hefyd.</p> <p>Myfyriodd y Cyng Mike Parry ar yr arbedion cost a wneir yma gyda RAS. Dywedodd Kyri Alexandrou mai ni yw'r unig ardal yn y Deyrnas Unedig sydd heb robot, a fydd yn broblem ar gyfer recriwtio gan fod yr holl feddygon newydd yn cael eu hyfforddi mewn hyn a'i fod yn denu.</p>	
S20/5.5	<p>Cododd Trystan Pritchard bryderon o ran ymgysylltu a sut mae newidiadau i wasanaethau yn cael eu derbyn yn gyhoeddus. Mae yna effaith ar ddibyniaeth glinigol ac amseroedd teithio i gleifion. Eglurodd Kamala bod angen i ni barhau i ymgysylltu, mae angen i ni fynd i'r afael â'r materion y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wynebu, ac mae angen achos dan arweiniad clinigol, gydag Arweinwyr Clinigol yn cymryd rhan yn yr ymgysylltiad.</p>	
S20/5.6	<p>Bu i'r Cadeirydd grynhoi bod y Grŵp yn cefnogi'r gwaith sydd ar waith. Mae'r angen i fynd i'r afael ar recriwtio, cost a phrofiad cleifion yn cael ei groesawu. Mynegwyd siomedigaeth o ran yr amser y mae wedi'i gymryd i gyrraedd cyn belled ond ni ddylai bod mwy o oedi. Roedd y grŵp hefyd eisiau mynegi y dylid rhoi ystyriaeth i fynd i'r afael â gwleidyddiaeth o ran ymgysylltiad fel ein bod yn gwneud hynny gyda mwy o effaith.</p>	
S20/6	<p>Adroddiad Blynyddol GCRh drafft</p>	
S20/6.1	<p>Mae Adroddiad Blynyddol GCRh drafft i fod i gael ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd. Mae croeso i aelodau roi sylwadau arno cyn ei gyflwyno. Gofynnir am sylwadau erbyn diwedd mis Mawrth 2020.</p>	Pob Un
S20/7	<p>Nodiadau drafft o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr</p>	
S20/7.1	<p>Derbyniwyd y nodiadau drafft fel cofnod cywir, yn amodol ar newid mân i bresenoldeb y Cyng Mike Parry i adlewyrchu'r amser cyn daeth yn aelod.</p>	
S20/8	<p>Adroddiad Cyngori'r Cadeirydd i'r Bwrdd</p>	
S20/8.1	<p>Derbyniwyd Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd a nodwyd bod negeseuon y Grŵp yn cael eu hadrodd yn ôl yn glir.</p>	
S20/9	<p>Cofnod Cryno o Weithredoedd</p>	
S20/9.1	<p>Nodwyd bod yr holl gamau wedi cau.</p>	
S20/10	<p>Eitemau i'w hystyried ar gyfer y cyfarfod nesaf a Blaengynllun</p>	
S20/10.1	<p>Cytunwyd ar yr eitemau canlynol ar gyfer y cyfarfod nesaf:</p>	

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)

S20/10.2	<ul style="list-style-type: none"> • Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru • Strategaeth Gwasanaeth • Unrhyw achosion busnes sydd eu hangen • Diweddariad Rheoli Meddyginiaethau <p>Gofynnodd y Cyng Mike Parry os ellir rhannu'r cyfnewid gohebiaeth diweddar rhyngddo ef a Mark Wilkinson o ran oediadau Ambiwylans ag aelodau'r GCRh er gwybodaeth. Cytunodd Mark y byddai'n rhannu hyn ac y byddai'n ddefnyddiol codi hyn gyda WAST hefyd cyn iddynt fynychu'r cyfarfod GCRh nesaf.</p>	MW
S20/11	Gwerthusiad o'r Cyfarfod	
S20/11.1	Nodwyd bod ansawdd y cyflwyniadau o safon uchel iawn a byddai hyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r cyflwynwyr. Teimlwyd y byddai'n ddefnyddiol iawn petai clinigwr yn mynychu a bod yn rhan yn y drafodaeth. Nodwyd nad oedd yr acwsteg yn Ystafell y Bwrdd ym Mhreswylfa o'r safon orau, ond croesawyd y nod i ddefnyddio lleoliadau mewnol ac i symud ar draws y dalgylch gan yr Aelodau.	
S20/12	Er gwybodaeth - Eitemau a gylchredwyd rhwng cyfarfodydd	
S20/12.1	Ni chafodd unrhyw eitemau eu cylchredeg rhwng cyfarfodydd.	
S20/13	Eitemau sydd wedi'u cylchredeg ymysg aelodau er gwybodaeth	
S20/13.1	<p>Cafodd yr eitemau canlynol eu cylchredeg er gwybodaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddariad Ariannol • Datganiad Ansawdd Blynyddol 	
S20/14	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:	
S20/14.1	Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 22 Mehefin yn Ystafell y Bwrdd, Ysbyty Gwynedd, Bangor.	

Cofrestr Bresenoldeb:

Enw	Teitl / Sefydliad	4/6/19	10/9/19	17/12/19	3/3/20
Mr Ffrancon Williams	Cymdeithasau Tai (Cadeirydd)	√	√	√	√
Mr Gwilym Ellis Evans	Mantell Gwynedd (Is-gadeirydd)	√	√	√	√
Mr Mark Wilkinson	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, BIPBC - Gweithredwr Arweiniol	√	√	√	√
Y Cyng. Penny Andow	Cyngor Sir Conwy	x	x		
Y Cyng. Louise Emery	Cyngor Sir Conwy			√	X

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)

Mrs Fiona Evans	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy	x	x	√	√
Y Cyng. Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn	x	x	x	X
Y Cyng. Christine Jones	Cyngor Sir y Fflint	x	x	x	X
Mr Andy Long	WAST - Rheolwr Ardal y Gogledd	x	x	x	X
Y Cyng. Joan Lowe	Cyngor Sir Wrecsam	X	x	X	√
Y Cyng. Christine Marston	Cyngor Sir Ddinbych	X	x	X	√
Y Cyng. Dafydd Meurig	Cyngor Gwynedd	X	x	X	X
Yr Athro Roberts Moore	Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru	X	√	√	X
Y Cyng. Mike Parry	Un Llais Cymru	X	√	√	√
Mrs Sian Purcell	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Medrwn Môn	X	√	x	X
Mrs Ann Woods	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint	X	x	√	√
Ms Claire Sullivan	NEWCIS	X	x	x	X
Mrs G Winter	Ymddiriedolaeth Gofalwyr	X	x	x	X
Mrs Sally Baxter	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Iechyd, BIPBC	√	√	x	X
Mrs Debbie Thompson	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	√ Julie Pierce yn bresenno I	√ Mair Davies yn bresenno I	x	√
Ms Llinos M Roberts	Gwasanaeth Allgymorth Gofalwyr, Ardal Gorllewin BIPBC	√	x	√	X
Mrs Mary Wimbury	Fforwm Gofal Cymru	√	x	x	√
Mr Mark Thornton	Cadeirydd NWCHC	√	x G Higginbot ham yn bresenno I	x GH yn bresenno I	X GH yn brese nnol
Mrs Katie Sargent	Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Cyfathrebu, BIPBC	√	√	x	X
Mr Trystan Pritchard	Cynrychiolydd Hosbisau Gogledd Cymru		√	x	√
Mrs Jackie Allen	Trydydd Sector Wrecsam			√	x